## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Dewisol wrth arfer unrhyw un neu unrhyw rai o'u swyddogaethau.

### 1. Amcanion Polisi

- Effaith pa benderfyniad ydych chi'n ei asesu?
  Y penderfyniad i weithredu dyletswydd sefydliadol statudol o onestrwydd ar gyrff GIG yng Nghymru. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol o ran gofal iechyd sy'n cael ei ddarparu i blant.

### 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Cafwyd ymchwiliadau ac adroddiadau yn y DU sy'n galw am gyflwyno dyletswydd sefydliadol o onestrwydd[1] [2] [3] [4]. Mae'r rhai sy'n ymwneud yn benodol â phlant a phobl ifanc fel a ganlyn:

- Yn ei adroddiad ymchwiliad cyhoeddus i lawdriniaeth ar y galon i blant yn Ysbyty Brenhinol Bryste, nododd Kennedy, I[1] (2001) " We consider the need for a culture of openness and honesty within the hospital as a whole, and we argue for a duty of candour towards patients when things go wrong or concerns are raised."

- Mewn ymchwiliad annibynnol a gomisiynwyd gan Weinidogion Cymru i'r

[1] Kennedy, I. The Bristol Royal infirmary inquiry. Learning from Bristol - The Report of the Public Inquiry into children's heart surgery at the Bristol Royal Infirmary 1984-1995 [y Rhyngrwyd]. Y Goron; 2001. Ar gael yn: https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20090811143822/http:/www.bristol-inquiry.org.uk/final_report/the_report.pdf

[2] Donaldson, L. Making Amends - A consultation paper setting out proposals for reforming the approach to clinical negligence in the NHS [y Rhyngrwyd]. Cyhoeddiadau'r Adran Iechyd; 2003. Ar gael yn:
https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20120809195448/http://www.dh.gov.uk/prod_consum_dh/groups/dh_digitalassets/@dh/@en/documents/digitalasset/dh_4060945.pdf

[3] Francis, R ac eraill. Report of the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust Public Inquiry [y Rhyngrwyd]. Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Swydd Stafford; 2013. Ar gael yn:
https://www.gov.uk/government/publications/report-of-the-mid-staffordshire-nhs-foundation-trust-public-inquiry

[4] Evans, K. "Defnyddio Cwynion yn Rhodd" - ADOLYGIAD O YMDRIN Â PHRYDERON (CWYNION) YN GIG CYMRU (2014) Llywodraeth Cymru.

amgylchiadau a arweiniodd at farwolaeth Robert Powell[5], gwnaed nifer o argymhellion yn ymwneud â gonestrwydd o dan y thema cyfathrebu'n well â chleifion a'u teuluoedd, a'u cynnwys yn well, pan fydd pethau'n mynd o'u lle. Defnyddiodd yr elusen, Action against Medical Accidents (AvMA) achos Robbie Powell i ymgyrchu dros ddyletswydd sefydliadol statudol o onestrwydd yn y DU, "Robbie's Law"[6]

Mae galwadau am gyflwyno dyletswydd sefydliadol o onestrwydd yng Nghymru wedi eu gwneud yn yr adroddiadau canlynol:

- Fe wnaeth Adolygiad Evans o'r ffordd yr ymdriniwyd â chwynion yn GIG Cymru "Defnyddio Cwynion yn Rhodd"[4] argymhelliad penodol, argymhelliad 49, ynghylch dyletswydd gyfreithiol newydd o onestrwydd.
- Yn ogystal â hyn, roedd adolygiad Ruth Marks o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru[7] a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2014 yn galw ar i ddyletswydd gonestrwydd benodol gael ei chyflwyno yng Nghymru.

Cyflwynwyd dyletswydd gonestrwydd yn yr Alban yn 2018. Mae Inkster, T a Cuddihy, J[8] (2022) yn disgrifio profiad clinigwr a chleifion o ddyletswydd gonestrwydd a chyfathrebu ar ward plant yn dilyn digwyddiad rheoli heintiad sylweddol. Maent yn dweud, " The significant learning from this incident is that patients and families should be communicated to in a timely, open, transparent fashion, with frequent updates."

Un o'r prif bwyntiau a nodwyd gan Glasper, E. A[9] (2018) yn ei bapur am achos Bawa-Garba ac Amoro yw bod "The Royal College of Paediatrics and Child Health believes that a no-blame culture in which the focus is on learning from errors and open and frank dialogue with families affected is the best route to achieve improved

---

[5] Jones, N. THE ROBERT POWELL INVESTIGATION - A REPORT TO THE WELSH MINISTERS [y Rhyngrwyd]. 2012. Ar gael yn: https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20121105061144/http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/powell/;jsessionid=7715EFC40A4DCD5B5DD28E35A550C584?status=gxbqamrvi&lang=en

[6] Walsh, P. (2020) The Duty of Candour – where are we now? The Introduction of the Duty of Candour | PSA (professionalstandards.org.uk) Professional Standards Authority for Health & Social Care, Insights into Regulation, Blog, 30 Ionawr 2020

[7] Marks, R. Adolygiad Annibynnol o waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Y ffordd ymlaen: dod yn gorff arolygu a gwella, [y Rhyngrwyd] 2014]. 2014.

[8] Inkster, T. a Cuddihy, J. Duty of candour and communication during an infection control incident in a paediatric ward of a Scottish hospital: how can we do better? | Journal of Medical Ethics (bmj.com) (2022) Cyfrol 48, Rhifyn 3.

[9] Glasper, E.A. Full article: Promoting Honesty and Truthfulness When Things Go Wrong During Care Delivery for Sick Children (tandfonline.com) (2018) Comprehensive Child and Adolescent Nursing. Cyfrol.41(2), 2018, tt. 83-88.

patient care and safety."

Mae'r ymchwil uchod yn dangos pwysigrwydd dyletswydd sefydliadol o onestrwydd i bawb, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Er bod y dyletswydd gonestrwydd yn berthnasol i bawb, beth bynnag fo'u hoedran, wrth ystyried effaith y ddyletswydd ar wahanol grwpiau o blant a phobl ifanc, ystyrir y bydd yr effaith gadarnhaol yn fwy ar y rhai sy'n debygol o gael mwy o ryngweithio â gwasanaethau gofal iechyd, h.y. plant neu bobl ifanc sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, sy'n byw mewn tlodi, sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd parhaol ac yn y blaen.

Mae tystiolaeth yn dangos bod Sipsiwn Romani, Teithwyr Gwyddelig, Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches[10] yn profi mynediad gwael at ofal iechyd a chanlyniadau iechyd gwael o'i gymharu â phoblogaeth sefydlog Cymru. Byddai hyn yn berthnasol i blant a phobl ifanc yn y grwpiau hyn. Gall diffyg cyfeiriad parhaol, dealltwriaeth wael a diffyg gallu i gyfleu eu hanghenion iechyd eu hunain, llythrennedd gwael, ac amharodrwydd diwylliannol i ymgysylltu â gwasanaethau i gyd achosi heriau gwahanol ond gwahanol i ddarparu gwasanaethau i unigolion, gan gynnwys plant a phobl ifanc o fewn y grwpiau hyn. Mae'n bosibl y byddant hwy neu eu rhieni yn gohirio ceisio triniaeth nes bod eu cyflwr wedi gwaethygu, a allai olygu bod angen triniaeth fwy cymhleth a chynnydd yn y tebygolrwydd y bydd mwy nag ychydig o niwed yn digwydd. Bydd bod yn agored a gonest gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni, lle bo hynny'n briodol, yn helpu i wella eu hyder yn y system gofal iechyd a allai yn ei dro, helpu yn y tymor hir i dorri'r cylch drwgdybiaeth gyda'r grwpiau hyn.

Gwahoddwyd cynrychiolwyr o swyddfa Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i'r pedwar gweithdy a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2021 i gymryd rhan mewn trafodaethau paratoi cychwynnol ar y ddyletswydd.

Cysylltwyd â Plant yng Nghymru i gael barn plant a phobl ifanc ar y ddyletswydd gonestrwydd. Cynhaliwyd grŵp ffocws bychan gyda phedwar person ifanc rhwng 14 a 20 oed a chynhaliwyd trafodaeth ar rai agweddau ar y ddyletswydd. Roedd Plant yng Nghymru yn teimlo bod hwn yn bwnc cymhleth i blant a phobl ifanc ei ddeall yn llawn. Bu'r grŵp ffocws yn trafod materion fel a ddylai plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu hasesu fel rhai sydd â chymhwysedd Gillick allu gwneud cwyn, beth a ddylai fod ar waith i helpu plentyn neu berson ifanc i gwyno a sut y gallai plant a phobl ifanc gael gwybod am eu hawl i wneud cwyn.

Roedd y grŵp yn teimlo, er y gallai plentyn neu berson ifanc â chymhwysedd Gillick, y dylai oedolyn arwain wrth eu helpu i ddeall manylion a goblygiadau'r gŵyn. Roedd rhai o'r grŵp yn teimlo y byddai eiriolwr yn helpu i siarad ar ran y plentyn neu'r person ifanc ac eraill yn pwysleisio'r angen am ddarpariaeth gyfreithiol i amddiffyn yr

[10] McFadden, A et al (2019) Gypsy, Roma and Traveller access to and engagement with health services: a systematic review | European Journal of Public Health | Oxford Academic (oup.com) European Journal of Public Health, Vol 28, issue 1

achwynydd.  Cytunodd y grŵp y dylai gweithiwr iechyd proffesiynol roi gwybod iddynt am eu hawl i wneud cwyn, gan awgrymu y gallai'r wybodaeth gael ei chynnwys ar wefannau, taflenni gwybodaeth a fideos y GIG.  Cydnabuwyd na fydd pawb eisiau cael cyfarfod wyneb yn wyneb ac efallai y bydd yn well ganddynt gysylltu drwy e-bost.  Wrth drafod y lefelau niwed, roedd y grŵp yn teimlo y dylai'r trothwy fod yn is ac nad oedd y broses yn glir os oes llai o niwed.  Mynegwyd angen pendant am gefnogaeth i'r unigolyn.

Caiff yr adborth hwn ei ddefnyddio wrth ddatblygu'r daflen ymwybyddiaeth gonestrwydd i blant a phobl ifanc.  Mae Plant yng Nghymru wedi cytuno bod angen dull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar y ffyrdd o helpu pobl ifanc i ddeall y pwnc, a gofynnir iddynt roi adborth strwythuredig i helpu i ddatblygu'r daflen ymwybyddiaeth.  Mae'r adran ar blant a phobl ifanc yn y canllawiau gonestrwydd wedi cael ei hystyried gan y staff amlddisgyblaethol Plant yng Nghymru , gan gynnwys yr arweinydd diogelu dynodedig a'r grŵp staff cyfathrebu a phobl ifanc.  Fe'i rhannwyd hefyd gyda rhieni/gofalwyr/plant a phobl ifanc.

## 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

**Ni ystyrir y bydd y ddyletswydd yn cael effaith negyddol ar fywydau plant a phobl ifanc.**

Bydd y broses hysbysu o dan y ddyletswydd gonestrwydd yn sicrhau, cyn gynted ag y bydd y corff cyfrifol yn dod yn ymwybodol bod y ddyletswydd wedi'i sbarduno, y byddant yn hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc (neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran).  Bydd y plentyn neu'r person ifanc yn cael ymddiheuriad, gwybodaeth a chefnogaeth os oes angen.  Mae'r dull hwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo erthygl 13 o'r Confensiwn *("Erthygl 13 - Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth cyn belled nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw nac i eraill.")* fel y nodir yn y tabl isod.

Mae'r dull gweithredu hefyd yn cefnogi Erthyglau 1, 2, 3, 4, 12, 23 a 24:

**Erthygl 1:** Mae gan bob un dan 18 oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.

**Erthygl 2:** Mae'r confensiwn yn berthnasol i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

**Erthygl 3** – Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

**Erthygl 4:** Mae gan lywodraethau gyfrifoldeb i gymryd yr holl fesurau sydd ar gael i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu parchu, eu diogelu a'u cyflawni.

**Erthygl 12** - Mae gan blant yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w safbwyntiau gael eu cymryd i ystyriaeth.

**Erthygl 23:** Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd gael gofal a chefnogaeth arbennig er mwyn iddynt allu byw bywydau llawn ac annibynnol.

**Erthygl 24:** Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân a bwyd maethlon.

Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir yn erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi eich hun.

| **Erthyglau neu Brotocol Dewisol y Confensiwn** | **Yn Gwella (X)** | **Yn Herio (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| Erthyglau 1, 2, 3, 4, 12, | X | | Mae'r ddyletswydd yn cryfhau'r gofyniad i fod yn agored ac yn onest gyda phlentyn, neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran, os aiff rhywbeth o'i le. |
| Erthygl 13 | X | | Sicrhau y bydd plentyn, neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran ac yn cynrychioli ei fuddiannau, yn cael gwybod os bydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda gofal y plentyn ac yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r ymchwiliad i ofal a thriniaeth y plentyn. Mae hyn yn cefnogi Erthygl 13. |
| Erthygl 23 | X | | Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i bob plentyn ond mae'n debygol o gael effaith fwy cadarnhaol ar y rhai sydd yn cael mwy o ryngweithio â gwasanaethau gofal iechyd i gefnogi Erthygl 23. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 24 | X | | Yn y tymor hir, bydd dysgu o ddigwyddiadau yn gwella ansawdd gofal iechyd, gan gynnwys i blant a phobl ifanc, i gefnogi erthygl 24. |

Mae'r Hawl Dinesydd yr UE canlynol yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dinasyddion a weithredwyd gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020.

iv) **Cydgysylltu Systemau Nawdd Cymdeithasol -** mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai a mynediad at ofal iechyd.

**4. Cyngor a phenderfyniad gweinidogion**

- Sut bydd eich dadansoddiad o'r effeithiau hyn yn llywio eich cyngor gweinidogol?

Y cyngor Gweinidogol yw bod dyletswydd gonestrwydd yn berthnasol i bawb, waeth beth fo'u hoedran. Wrth ystyried effaith y ddyletswydd ar wahanol grwpiau o blant a phobl ifanc, ystyrir y bydd yr effaith gadarnhaol yn fwy ar y rhai sy'n debygol o gael mwy o ryngweithio â gwasanaethau gofal iechyd.

**5. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc**

Bydd grwpiau plant a phobl ifanc o Plant yng Nghymru yn cael gwybod bod y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei lansio, drwy Plant yng Nghymru. Bydd Comisiynydd Plant Cymru yn cael gwybod am y lansiad.

Bydd taflen ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei datblygu ar gyfer plant a phobl ifanc i egluro'r broses pan sbardunir y ddyletswydd i blentyn neu berson ifanc. Bydd adborth gan grŵp ffocws plant a phobl ifanc Plant yng Nghymru yn cael ei ystyried wrth ddatblygu'r daflen, fel yr amlinellir uchod. Er enghraifft, roedd pobl ifanc yn teimlo y dylai oedolyn eu helpu i ddeall sut i wneud cwyn ac awgrymwyd y efallai y gallai eiriolwr eu helpu.

Bydd pobl ifanc yn rhoi adborth strwythuredig pan fydd y daflen yn cael ei datblygu, i sicrhau ei bod yn egluro'r ddyletswydd mewn ffordd y mae plant a phobl ifanc yn ei deall.

Bydd fersiwn electronig o'r daflen yn cael ei hanfon i Plant yng Nghymru a'r Comisiynydd Plant i'w rhoi ar eu gwefannau. Bydd ar gael yn electronig ar wefannau Llywodraeth Cymru a'r corff GIG. Bydd copïau ar gael ar ffurf copi caled gan gyrff GIG.

## 6. Monitro ac Adolygu

Bydd yr Asesiad Effaith Hawliau Plant yn cael ei fonitro wrth i'r ddyletswydd gael ei rhoi ar waith gan gyrff GIG. Mae gweithgor wedi'i sefydlu yng Nghronfa Risg Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr o gyrff GIG. Gofynnir iddynt fonitro a rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw effaith a gaiff y ddyletswydd ar blant a phobl ifanc. Cynhelir **gwerthusiad** o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 gydag adroddiad blynyddol dros gyfnod o 5 mlynedd.